Dadansoddi ar gyfer Polisi
YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH
GSR
GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH
Analysis for Policy

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

www.cymru.gov.uk

Ymchwil gymdeithasol
Social research

# Gwerthusiad o'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer y Gwasanaeth Ieuenctid yng Nghymru (Adroddiad cryno)

# Gwerthusiad o'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer y Gwasanaeth Ieuenctid yng Nghymru

## Arad Research

Barn yr ymchwilwyr a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o reidrwydd yn cyfateb â barn Llywodraeth Cynulliad Cymru.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
Julie Owens
Y Gangen Ymchwil a Gwerthuso
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Cyffordd Llandudno
Conwy
LL31 9RZ
Ffôn: 0300 062 5484
E-bost: Julie.Owens@wales.gsi.gov.uk

Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010
ISBN
© Hawlfraint y Goron 2010

**CYNNWYS**


Cyflwyniad a chefndir ........................................................................................4

Adnoddau ar gyfer darparu'r gwasanaeth ieuenctid............................................5

Datblygu a darparu polisi integredig....................................................................6

Datblygu'r gweithlu..............................................................................................7

Camau'r sector gwirfoddol...................................................................................8

Sicrhau ansawdd a mesur effaith........................................................................8

Strwythur a threfniadaeth y ddarpariaeth leol......................................................9

Rhan pobl ifanc yn y broses o wneud penderfyniadau......................................11

Hyfforddi gwaith ieuenctid mewn addysg uwch (AU) ........................................11

Casgliadau bras y gwerthusiad .........................................................................12

Argymhellion .....................................................................................................20

## Cyflwyniad a chefndir

1. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno crynodeb o ganfyddiadau gwerthusiad o'r *Strategaeth Genedlaethol ar gyfer y Gwasanaeth Ieuenctid yng Nghymru: Pobl Ifanc, gwaith ieuenctid, Gwasanaeth Ieuenctid* (y Strategaeth) a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, ac a gynhaliwyd gan gwmni Arad Research. Cynhaliwyd y gwerthusiad rhwng mis Hydref 2009 a mis Gorffennaf 2010.

2. Diffiniwyd nodau'r gwerthusiad gan Lywodraeth Cynulliad Cymru fel a ganlyn:
    - gwerthuso effeithiolrwydd y strategaeth hyd yma wrth gyflawni'r nodau a bennir ym mholisïau a strategaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru;
    - nodi ac ystyried effaith y trefniadau o ran cyflwyno'r strategaeth ledled Cymru, mewn rhanbarthau ac ardaloedd lleol, ar gyfer unigolion a darparwyr fel ei gilydd.

1.1 Cytunwyd ar amcanion penodol y gwerthusiad hwn, sef:

- asesu llwyddiant y strategaeth hyd yma o ran cyflawni'r nod o wella gallu'r Gwasanaeth Ieuenctid i ddarparu ystod eang o gyfleoedd dysgu heb fod yn ffurfiol (non-formal), a chyfleoedd dysgu anffurfiol (informal) i bobl ifanc rhwng 11-25 oed, â'r rheiny'n gyfleoedd y maent yn dewis cymryd rhan ynddynt;
- asesu llwyddiant y strategaeth wrth bennu nodau strategol realistig i holl sefydliadau partner y Gwasanaeth Ieuenctid eu cyflawni o fewn amserlen briodol;
- nodi unrhyw rwystrau neu gyfyngiadau sydd wedi amharu ar gynnydd y strategaeth hyd yma;
- casglu safbwyntiau ar y ffyrdd gorau o gefnogi ymarferwyr i gofnodi tystiolaeth o effaith gweithgareddau'r strategaeth ar y buddiolwyr, a hynny o ran mynd ati i gymryd rhan, datblygu sgiliau a chymhwysedd emosiynol;
- argymell ffyrdd posibl o ddatblygu'r Strategaeth yn y dyfodol a / neu'r prosesau a'r gweithgareddau sy'n rhan ohoni.

3. Lansiwyd y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer y Gwasanaeth Ieuenctid yng Nghymru ym mis Mawrth 2007. Cynigai weledigaeth ar gyfer gwaith ieuenctid yng Nghymru a'i rôl wrth gyfrannu at agenda'r Cynulliad o gefnogi pobl ifanc. Roedd y Strategaeth yn cynnwys cynllun gweithredu i hyrwyddo dull mwy integredig a chydgysylltiedig o gynnal gwaith ieuenctid ledled Cymru. Ceisiai sicrhau hefyd fod pobl ifanc yn cael dweud eu dweud wrth lywio'r gwasanaethau gwaith ieuenctid a ddarperir ar eu cyfer, a'u bod yn gallu dylanwadu ar ddatblygiadau polisi ehangach sy'n effeithio arnynt.

4. Roedd yr ymchwil yn cynnwys adolygu dogfennau allweddol a oedd yn ymwneud â chyflwyno'r strategaeth; casglu tystiolaeth gan ymarferwyr drwy gyfrwng arolwg a chyfweliadau ansoddol; cyfweliadau pellach gyda rhanddeiliaid ehangach a chyda sefydliadau addysg uwch; ymweliadau dilynol â chwe ardal leol er mwyn casglu tystiolaeth ansoddol fanylach a thrafodaethau â phobl ifanc yn ystod ymweliadau â chlybiau ieuenctid yn y sector gwirfoddol a'r sector a gynhelir (maintained). Ni fyddai wedi bod yn bosibl cynnal yr astudiaeth hon heb yr amser a'r ymdrech a roddwyd mor hael gan yr amryw bartneriaid hyn, ac mae'r tîm gwerthuso yn ddiolchgar iawn i bawb a gyfrannodd.

5. Cafodd y dystiolaeth a gasglwyd yn ystod y gwerthusiad ei dadansoddi'n thematig, gan adlewyrchu'r blaenoriaethau a'r pynciau a bennir yn y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer y Gwasanaeth Ieuenctid. Eir i'r afael â bob un o'r rhain isod.

## Adnoddau ar gyfer darparu'r gwasanaeth ieuenctid

6. Gwelwyd cynnydd yng nghyfanswm yr incwm ar gyfer y Gwasanaeth Ieuenctid a Gynhelir yng Nghymru yn ystod oes y Strategaeth, a hynny o £36.7m i £44.5m. Yn rhannol, mae hyn yn ganlyniad i gyllid ychwanegol a neilltuwyd ar gyfer y gwaith o ddarparu'r Strategaeth. Roedd awdurdodau lleol hefyd wedi elwa ar gyllid ychwanegol, yn deilio o amryw ffynonellau eraill. Canfu'r gwerthusiad, fodd bynnag, fod y cyllidebau a ddyrennir ar gyfer y gwaith o ddarparu Gwasanaeth Ieuenctid yn amrywio'n sylweddol ar draws yr awdurdodau lleol.

7. Roedd y buddsoddiad ychwanegol a sicrhawyd yn ystod oes y Strategaeth wedi llwyddo i gynyddu'r gwariant fesul person yng Nghymru. Cynyddodd y gwariant o £63 y pen yn 2006-07 i £74 y pen yn 2008-09, sef cynnydd o 17.5%. Fodd bynnag, mae'r gwariant fesul person ifanc yn amrywio'n sylweddol ar draws yr awdurdodau lleol, yn amrywio o £26 y pen i £135 y pen yn 2008-09.

8. Roedd llawer o'r ymarferwyr yn croesawu'r cyfleoedd a gyflwynwyd o ganlyniad i'r cyllid ychwanegol a oedd yn gysylltiedig â'r Strategaeth. Nododd Uwch-reolwyr fod cyllid refeniw a chyfalaf ychwanegol wedi cael effaith, gan arwain at gyflwyno gwasanaethau newydd i bobl ifanc. Yn arbennig, arweiniodd hyn at ddarparu gwasanaethau ieuenctid all-estyn a datgysylltiedig ychwanegol.

9. Mae rhai gweithwyr ieuenctid o'r farn fod amrywiadau mewn gwariant yn arwain at anghydraddoldeb o ran yr ystod o gyfleoedd a gynigir i bobl ifanc, a'u hansawdd. Erys diffyg cyllid yn her allweddol i'r sefydliadau hynny sy'n darparu gwasanaethau i bobl ifanc, a bydd cyllidebau yn debygol o gael eu gwasgu fwy fyth yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod.

10. Mae sgôp i awdurdodau lleol gynyddu'r adnoddau a ddyrennir i gyllidebau Gwasanaeth Ieuenctid er mwyn adlewyrchu'n well y symiau a bennir yng ngrant craidd Llywodraeth Cynulliad Cymru. Awgryma rhai ymarferwyr y byddai hyn yn fwy tebygol o ddigwydd pe bai gofyn i Wasanaethau Ieuenctid lleol weithio tuag at safonau cenedlaethol cyffredin.

## Datblygu a darparu polisi integredig

11. Nod y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer y Gwasanaeth Ieuenctid oedd sefydlu strwythur integredig newydd, gan greu llinyn cyswllt drwy'r broses o greu a darparu polisi ar lefel genedlaethol, lefel ranbarthol a lefel leol. Mae'r strwythurau a roddwyd yn eu lle ers cyhoeddi'r Strategaeth yn braenaru'r tir ar gyfer dull mwy integredig o gynllunio Gwasanaethau Ieuenctid, gyda mwy o gyfleoedd ar gyfer cydweithredu rhanbarthol ar bob lefel.

12. Mae’r partneriaethau rhanbarthol ar gyfer Prif Swyddogion Ieuenctid (PYOs) a’r sector gwirfoddol yn ddatblygiadau pwysig sy’n gyson â’r agenda rhanbartholi a bennir yn nogfen Creu’r Cysylltiadau. Mae’r partneriaethau hyn yn cynnig cyfeiriad strategol ar gyfer darparu’r gweithgareddau a’r camau a bennir yn y Strategaeth; maent wedi arwain at fwy o hyfforddiant i weithwyr ieuenctid ar draws awdurdodau ac, mewn rhai achosion, cânt eu defnyddio i rannu arferion effeithiol.

13. Mae effaith y grwpiau rhanbarthol i’w gweld mewn amryw fyd o ffyrdd: roedd gwaith un grŵp wedi llywio’r broses o ddatblygu’r Strategaeth Datblygu’r Gweithlu Genedlaethol; roedd grŵp arall wedi helpu i ddatblygu’r safonau cenedlaethol ar gyfer y Gwasanaeth Ieuenctid yng Nghymru.

14. Roedd rhai o’r elfennau yn y strwythur integredig hwn yn bodoli, naill ai’n anffurfiol neu ar wedd arall, cyn cyhoeddi’r Strategaeth Genedlaethol. Fodd bynnag, llwyddodd y Strategaeth i roi hwb o’r newydd a fu’n gymorth i ffurfioli ac atgyfnerthu dull cydweithredol o ddarparu gwasanaethau a oedd yn seiliedig ar bartneriaeth.

## Datblygu’r gweithlu

15. Mae un o’r amcanion a bennwyd yn y Strategaeth wedi’i gyflawni, sef datblygu a chyflwyno Cynllun Datblygu’r Gweithlu Cenedlaethol ar gyfer y Gwasanaeth Ieuenctid. Serch hyn, roedd cynnydd y broses hon yn arafach na’r disgwyl. Mae’n debygol y bydd datblygu maniffesto ar gyfer y gweithlu sy’n gwneud gwaith ieuenctid yng Nghymru, ynghyd â chyflwyno’r Cynllun Datblygu’r Gweithlu yn cyflwyno dull o weithio mwy cydgysylltiedig, gyda phwyslais ar gynllunio rhanbarthol.

16. Mae PYOs yn ystyried bod cynnydd yn cael ei wneud wrth wella sgiliau a chymwysterau’r gweithlu gwaith ieuenctid. Serch hyn, ystyrir bod hwn yn amcan tymor-canolig i hirdymor. Dros y blynyddoedd diwethaf , mae cyfran y gweithlu sy’n meddu ar gymwysterau proffesiynol y Cydbwyllgor Ymgynghori a Negodi

(JNC) wedi amrywio, fodd bynnag, erys yn is o lawer na'r targed a nodir yn y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer y Gwasanaeth Ieuenctid.

17. Yn ôl y dystiolaeth a gasglwyd gan ymarferwyr fel rhan o'r gwerthusiad, mae nifer y cyfleoedd hyfforddiant yn cynyddu. Yr her yw sicrhau bod yr hyfforddiant a gyflwynir yn adlewyrchu'r blaenoriaethau a'r weledigaeth a nodir yn y Strategaeth Genedlaethol.

## Camau'r sector gwirfoddol

18. Mae strwythurau ar waith, drwy gyfrwng Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol (CWVYS) a chonsortia rhanbarthol y sector gwirfoddol fel ei gilydd, i sicrhau bod y weledigaeth a'r blaenoriaethau a nodir yn y Strategaeth Genedlaethol yn gallu treiddio i lawr i'r lefel sefydliadol a'r lefel ddarparu yn y Gwasanaeth Ieuenctid yn y sector gwirfoddol. Fodd bynnag, erys y Strategaeth yn fater ymylol ar gyfer llawer o sefydliadau'r sector gwirfoddol.

19. Mae gan gonsortia rhanbarthol y sector gwirfoddol rôl bwysig i'w chwarae wrth bennu'r cyfeiriad strategol a'r gwaith o reoli gweithgareddau'r Gwasanaeth Ieuenctid yn y sector gwirfoddol. Dyma gyfle i dynnu ynghyd bartneriaid priodol i weithio gyda grwpiau PYO rhanbarthol a chyda swyddogion rhanbarthol Llywodraeth Cynulliad Cymru er mwyn helpu i lywio polisi cenedlaethol a rhannu arferion effeithiol.

20. Ystyria gweithwyr ieuenctid fod cydweithredu rhwng y sectorau gwirfoddol a statudol wedi dod yn fwy effeithiol yn ystod y tair blynedd diwethaf. Ychydig iawn sy'n priodoli hyn i'r Strategaeth fodd bynnag, gan nodi bod amryw fyd o resymau pam fod sefydliadau gwirfoddol a statudol yn cydweithio'n agosach wrth ddarparu gwasanaethau i bobl ifanc.

## Sicrhau ansawdd a mesur effaith

21. Mae’r Gwasanaeth Ieuenctid yn defnyddio ystod o offer i ddangos effaith gwaith ieuenctid ar bobl ifanc. Mewn rhai achosion, mae’r dulliau a ddefnyddir yn rhagflaenu’r Strategaeth, tra bod awdurdodau lleol eraill wedi cyflwyno systemau newydd yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae llawer o ymarferwyr wedi bod yn rhan o’r cynlluniau peilot ar gyfer Dangos Llwyddiant.

22. Mae ymarferwyr a rheolwyr gwasanaethau ieuenctid yn cefnogi’r camau tuag at gytuno ar safonau cenedlaethol ar gyfer gwaith ieuenctid, a’u mabwysiadu. Mae angen systemau rheoli gwybodaeth cadarn (systemau MIS) er mwyn sicrhau bod y safonau’n cael eu cyflwyno’n effeithiol. Mae awdurdodau lleol wedi gwella eu MIS, ac mae rhai ohonynt wedi buddsoddi mewn systemau newydd gan ddefnyddio cyllid a ddyrannwyd i’r Strategaeth.

23. Mae’r mwyafrif helaeth bellach yn defnyddio systemau MIS cadarn, a fydd yn cyfrannu at wella’r broses o gynllunio a meincnodi perfformiad a darpariaeth. Mae’n bwysig bod cysondeb rhwng y gwahanol systemau sydd ar waith, er mwyn sicrhau bod y data a gesglir yn addas at ei ddiben, yn enwedig o gofio bod posibilrwydd y bydd safonau cenedlaethol cyffredin yn dod i rym.

## Strwythur a threfniadaeth y ddarpariaeth leol

24. Mae awdurdodau lleol wedi adolygu strwythur a threfniadaeth y Gwasanaethau Ieuenctid a ddarparwyd yn ystod oes y Strategaeth Genedlaethol. Yn ôl y gweithwyr ieuenctid, mae mwy o gyfleoedd i bobl ifanc gymryd rhan mewn gweithgareddau, gyda ffocws penodol ar ddarpariaeth all-estyn a datgysylltiedig. Mae’r Gwasanaeth Ieuenctid yn asesu angen mewn ffordd systematig ac mae’r wybodaeth a gesglir yn llywio’r ffordd y caiff y ddarpariaeth ei chynllunio a’i darparu.

25. Yn gynyddol, mae awdurdodau lleol yn llunio strategaethau Gwasanaeth Ieuenctid sy’n cynnig fframwaith lleol cadarn ar gyfer darparu’r Gwasanaethau Ieuenctid ac, mewn llawer o achosion, yn adlewyrchu amcanion a blaenoriaethau cenedlaethol trosfwaol.

26. Yn gyffredinol, mae pobl ifanc yn cydnabod bod bellach mwy o ddewis o ddarpariaeth a gwell cyfleoedd i ymgysylltu â’r Gwasanaethau Ieuenctid. Fodd bynnag, mae rhai yn dal i deimlo’n rhwystredig ynghylch diffyg darpariaeth leol ac ansawdd y cyfleusterau.

27. Mae’n anodd pennu effaith y Strategaeth ar strwythur a threfniadaeth y Gwasanaethau Ieuenctid: nododd nifer o awdurdodau lleol fod adolygiadau ac ad-drefnu wedi bod ar y gorwel ers cyn cyhoeddi’r Strategaeth. At hynny, yr hyn a wnaeth y Strategaeth oedd cadarnhau yr hyn a oedd ar y gweill yn hytrach na bod yn gatalydd ar gyfer newid. Roedd PYOs eraill yn rhoi gwerth ar y canllawiau a ddarperir gan y Strategaeth wrth iddynt gynnal adolygiadau mewnol o’r ddarpariaeth.

## Rhan pobl ifanc yn y broses o wneud penderfyniadau

28. Roedd y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer y Gwasanaeth Ieuenctid yn rhoi cyfrifoldeb ar Lywodraeth Cynulliad Cymru, awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol i chwarae rôl arweiniol wrth gynnwys pobl ifanc yn y broses o wneud penderfyniadau, a chynllunio ac adolygu gweithgarwch ar faterion sy'n effeithio arnynt. Nododd Prif Swyddogion Ieuenctid eu bod yn ymgynghori'n 'rheolaidd' ac yn 'systematig' â phobl ifanc ac yn eu cynnwys yn y broses o gynllunio'r gwasanaethau a ddarperir iddynt. Mae gweithdrefnau i sicrhau bod pobl ifanc yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau wedi'u hymgorffori i strategaethau Gwasanaeth Ieuenctid lleol mewn llawer o ardaloedd.

29. Nododd mwyafrif o'r ymarferwyr a arolygwyd yn ystod y gwerthusiad fod pobl ifanc yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Roedd hyn wedi'i gefnogi gan bobl ifanc eu hunain a deimlai eu bod yn gallu chwarae rôl yn y penderfyniadau am wasanaethau a ddarperir yn lleol, a bod eu barn yn cael ei ystyried. Rhoddwyd amryw enghreifftiau o'r ymagwedd gyfranogol hon, a gynllunnir ar lefel strategol ac sy'n treiddio i lawr i ganolfannau ieuenctid a phrosiectau unigol.

30. Mae'n llai clir i ba raddau y gellir priodoli gweithgareddau o'r fath yn uniongyrchol i'r Strategaeth. Mewn rhai awdurdodau lleol, roedd y camau a oedd yn gysylltiedig â hyrwyddo cyfranogiad pobl ifanc wedi'u nodi mewn cynlluniau a oedd yn rhagflaenu'r Strategaeth. Mewn awdurdodau lleol eraill, nododd PYOs a gweithwyr ieuenctid fod y Strategaeth yn tanlinellu pwysigrwydd prosesau a oedd eisoes yn eu lle.

## Hyfforddi gwaith ieuenctid mewn addysg uwch (AU)

31. Darperir ystod o gyrsiau proffesiynol mewn gwaith cymunedol a gwaith ieuenctid mewn pum sefydliad addysg uwch yng Nghymru. Ar draws y sector AU yng Nghymru, mae mwy na 600 o bobl ar gyrsiau gwaith cymunedol a gwaith ieuenctid. Caiff llawer o'r myfyrwyr hyn eu hariannu gan y Gwasanaethau Ieuenctid (drwy gyllid grant a ddarperir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru).

32. Nododd sefydliadau gynnydd iach yn y nifer y ceisiadau am gyrsiau gwaith ieuenctid a gwaith cymunedol dros y tair blynedd diwethaf. Yn ôl un o'r sefydliadau, roedd mwy na dwbl y nifer wedi gwneud cais am y flwyddyn academaidd gyfredol o gymharu ag adeg cyhoeddi'r Strategaeth. Roedd sefydliadau eraill hefyd wedi gweld cynnydd mewn niferoedd. Mae'n bosibl y bydd cyflwyno cymwysterau proffesiynol lefel gradd ym mis Medi 2010 yn ennyn mwy fyth o ddiddordeb.

33. Mae sefydliadau wedi adolygu ac ailstrwythuro cyrsiau, gan gydweithio â chyflogwyr i geisio sicrhau bod y rhaglenni a gyflwynir yn diwallu eu hanghenion. Canfu'r gwerthusiad enghreifftiau da o gydweithio rhwng sefydliadau addysg uwch (SAU) a Phrif Swyddogion Ieuenctid. Mae SAU hefyd wedi cynyddu nifer y lleoedd sydd ar gael ar gyfer hyfforddiant gwaith ieuenctid, gan adlewyrchu'r galw cynyddol am gymwysterau proffesiynol.

34. Fodd bynnag, erys pryderon am ansawdd y cysylltiadau rhwng SAU a PYOs a ph'un a yw rhaglenni cyfredol yn llwyddo i gynhyrchu'r graddedigion o ansawdd uchel sydd eu hangen i wireddu'r weledigaeth a'r nodau a nodir yn y Strategaeth Genedlaethol. Teimlai rhai myfyrwyr gwaith ieuenctid y byddai eu rhaglenni astudio yn elwa ar agweddau mwy ymarferol. Mae lleoliadau gwaith yn rhoi cyfle pwysig i fyfyrwyr gwaith ieuenctid gael profiad ymarferol gwerthfawr. Fodd bynnag, ymddengys bod ansawdd y lleoliadau gwaith yn amrywio.

## Casgliadau bras y gwerthusiad

35. Yn amlwg, roedd y Strategaeth ar gyfer y Gwasanaeth Ieuenctid wedi hoelio sylw haeddiannol i'r Gwasanaeth Ieuenctid, ac wedi denu cyllid. Dyma sector a fu gynt yn dioddef o ddiffyg gweledigaeth ganolog a chyfeiriad strategol. O ganlyniad, bu croeso brwd i'r Strategaeth gan y sector, gan ei bod yn cynnig fframwaith a oedd yn berthnasol i waith ieuenctid yng Nghymru, a hynny am y tro cyntaf. Fodd bynnag, yn adrannau blaenorol yr adroddiad hwn, cafodd y camau gwreiddiol eu cymharu â'r hyn a ddigwyddodd yn ystod y cyfnod rhwng 2007 - 2010 ac mae'n glir nad yw'r holl gamau wedi'u cyflawni. Yn yr adran nesaf, caiff

holl amcanion a nodau cyffredinol y Strategaeth eu hystyried yn eu tro, cyn cynnig argymhellion mwy cyffredinol ar gyfer y dyfodol.

**Y weledigaeth gyffredinol**

36. Yn *Pobl ifanc, gwaith ieuenctid, Gwasanaeth Ieuenctid* nodwyd y bydd y Strategaeth yn:

> Darparu gweledigaeth ar gyfer gwaith ieuenctid yng Nghymru a'i effaith wrth gyfrannu at agenda polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Croesawyd y Strategaeth fel dogfen yn cynnig gweledigaeth y gall y sector cyfan weithio tuag ati. Er bod rhai o’r rheiny y cynhaliwyd cyfweliadau â hwy wedi cwestiynu rhai o’r mân bwyntiau a nodir ynddi, roedd pawb yn cytuno bod angen Strategaeth. O’r cychwyn cyntaf, roedd y Prif Swyddogion Ieuenctid wedi ymgysylltu â’r Strategaeth, a cheir tystiolaeth fod y Strategaeth wedi llywio darpariaeth leol i wahanol raddau. Mae’r Strategaeth wedi cynnig fframwaith defnyddiol i ddatblygu’r Gwasanaeth Ieuenctid ledled Cymru, a hynny yn y sector statudol a’r sector gwirfoddol fel ei gilydd, ac er bod consensws na fu i’r ddogfen esgor ar newid radicalaidd, roedd y camau a nodir yn y Strategaeth yn offeryn defnyddiol ar gyfer y rheiny sy’n gweithio yn y Gwasanaeth Ieuenctid, yn enwedig y rheiny mewn rolau cynllunio a rheoli. Ar adegau, arweiniodd at newidiadau sylweddol neu ychwanegiadau at y rhaglenni gwaith. Mewn mannau eraill fe’i defnyddiwyd mwy fel rhestr wirio er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth gyfredol yn unol â meddylfryd Llywodraeth Cynulliad Cymru.

37. Fodd bynnag, ymddengys nad yw gweledigaeth y Strategaeth a’i chynnwys wedi treiddio ymhell y tu hwnt i dimau’r Gwasanaeth Ieuenctid yr awdurdodau lleol. Roedd rhai ymgyngoreion yn siomedig mai ychydig iawn o ddylanwad neu awdurdod a oedd gan y Strategaeth (yn ystod y gwerthusiad, cyfeiriwyd ati’n gyson fel dogfen heb ‘ddylanwad’). Credwyd bod proffil y Strategaeth yn rhy isel o’r lansiad cychwynnol. Gellir deall diffyg ymwybyddiaeth o’r Strategaeth ar lawr gwlad, ac nid yw’n destun pryder mawr gan fod y Prif Swyddogion Ieuenctid (yn y sector a gynhelir) a CWVYS (ar gyfer y sector gwirfoddol) yn lledaenu’r prif negeseuon. Serch hyn, mae’r ffaith bod rhai o’r ymgyngoreion wedi gwneud sylwadau yn awgrymu nad yw eu rheolwyr a’u cyfarwyddwyr yn ymwybodol o’r Strategaeth yn peri mwy o bryder.

38. Mae cysylltiad rhwng materion sy’n ymwneud â dylanwad ac effaith y Strategaeth a’r broses o ddatblygu’r safonau cenedlaethol, a cheir cefnogaeth

gref i hyn ymysg Prif Swyddogion Ieuenctid awdurdodau lleol. Yn ôl y rheiny a gyfrannodd at y gwerthusiad, byddai dogfen ddiwygiedig, yn cynnwys safonau cenedlaethol y cytunir arnynt, yn rhoi mwy o ddylanwad i'r Strategaeth.

**Cynaliadwyedd**

39. Yr ail o dri nod allweddol y Strategaeth oedd:

> Nodi sut i adnabod y staff, y strwythur a'r adnoddau sydd eu hangen ar y Gwasanaeth Ieuenctid yng Nghymru i ddiwallu anghenion y weledigaeth honno.

Ers cyhoeddi'r Strategaeth ym mis Mawrth 2007, mae ymarferwyr a phobl ifanc fel ei gilydd wedi sôn am newidiadau i ddarpariaeth y Gwasanaeth Ieuenctid, gyda llawer o ddatblygiadau cadarnhaol wedi'u nodi. Mae llawer o'r datblygiadau cadarnhaol hyn wedi ymateb i newidiadau i staffio, strwythurau ac adnoddau, sy'n deillio'n rhannol o'r Strategaeth. Mae adnoddau yn benodol wedi helpu'r sector i ddiwallu anghenion y weledigaeth. Yn ystod oes y Strategaeth, sicrhawyd cyllid ychwanegol i gefnogi Gwasanaethau Ieuenctid a bu croeso mawr i hyn yn y Gwasanaeth Ieuenctid a gynhelir.

40. Er bod cyfanswm yr incwm ar gyfer Gwasanaethau Ieuenctid wedi cynyddu ar draws Cymru, mae cyfran fwy o'r cyllid yn dod drwy incwm ychwanegol, yn hytrach na chyllidebau Gwasanaeth Ieuenctid craidd. Erys hefyd gwahaniaethau sylweddol rhwng y gwariant ar y Gwasanaeth Ieuenctid ar lefel leol, ac mae hyn yn effeithio ar allu rhai meysydd i wireddu gweledigaeth y Strategaeth yn llawn.

41. Mae sicrhau cyllideb y Gwasanaeth Ieuenctid yn bryder parhaus i'r rhan fwyaf o'r cyfweleion, gan gynnwys y rheiny sy'n gweithio yn y sector gwirfoddol a'r sector a gynhelir. Roedd consensws ymysg yr ymgyngoreion na ellir cyflawni llawer o'r camau strategol oni bai eu bod wedi'u cefnogi gan adnoddau digonol. Barn gyffredin ymysg llawer o'r ymarferwyr oedd y dylai'r cyllid fod yn gysylltiedig â'r camau a'r safonau cenedlaethol, a dylai argaeledd y cyllid fod yn hysbys ymlaen llaw er mwyn i'r adnoddau hyn gael eu hystyried fel rhan o brosesau cynllunio mwy hirdymor.

**Trosolwg o amcanion y gwerthusiad**

42. Mae gweddill yr adran hon yn amlinellu prif gasgliadau'r tîm gwerthuso ac yn cynnig argymhellion allweddol ar gyfer gwasanaethau yn y dyfodol. Cyflwynir sylwadau ar bob un o amcanion y gwerthusiad yn eu tro.

| |
|---|
| **Amcan y gwerthusiad:** Asesu llwyddiant y strategaeth hyd yma o ran cyflawni'r nod o wella gallu'r Gwasanaeth Ieuenctid i ddarparu ystod eang o gyfleoedd dysgu heb fod yn ffurfiol, a chyfleoedd dysgu anffurfiol i bobl ifanc rhwng 11-25 oed, â'r rheiny'n gyfleoedd y maent yn dewis cymryd rhan ynddynt. |
| Mae'r dystiolaeth a gasglwyd yn ystod y gwerthusiad yn awgrymu bod darpariaeth y Gwasanaeth Ieuenctid wedi gwella yn ystod oes y Strategaeth. Nododd gweithwyr ieuenctid fod cyfleoedd i bobl ifanc gymryd rhan mewn gweithgareddau wedi cynyddu, gyda mwy o ffocws ar ddarpariaeth all-estyn a darpariaeth ddatgysylltiedig. Mewn llawer o awdurdodau lleol, mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yn asesu anghenion pobl ifanc 11-25 oed ac yn defnyddio'r wybodaeth hon i gynllunio'r ddarpariaeth, gan gynnwys cyfleoedd dysgu anffurfiol a chyfleoedd dysgu heb fod yn ffurfiol (*informal and non-formal learning opportunities*).<br><br>Yn gynyddol, mae awdurdodau lleol yn llunio strategaethau gwasanaethau ieuenctid sy'n darparu fframwaith lleol cadarn ar gyfer cyflwyno gwasanaethau ieuenctid ac, mewn llawer o achosion, yn adlewyrchu amcanion a blaenoriaethau cenedlaethol trosfwaol.<br><br>Yn gyffredinol, mae pobl ifanc yn cydnabod bod bellach mwy o ddewis o ddarpariaeth a gwell cyfleoedd i ymgysylltu â gwasanaethau ieuenctid. Fodd bynnag, erys amrywiaethau ledled Cymru ac mae rhai pobl ifanc yn dal i deimlo'n rhwystredig ynghylch y diffyg darpariaeth leol ac ansawdd yr adnoddau a'r cyfleusterau. Mae hyn yn gysylltiedig â'r lefelau o gyllid sydd ar gael i'r Gwasanaeth Ieuenctid, sy'n amrywio'n sylweddol ledled Cymru. |

Ceir tystiolaeth bod y ddarpariaeth ar gyfer pobl ifanc wedi gwella dros y tair blynedd diwethaf. Serch hyn, nid yw'n glir i ba raddau y gellir priodoli'r gwelliannau hyn i gamau penodol sydd wedi'u cynnwys yn y Strategaeth. Nododd ymarferwyr fod llawer o ddatblygiadau wedi'u cynllunio neu ar y gweill cyn i'r Strategaeth gael ei chyhoeddi. Roedd eraill, fodd bynnag, yn gwerthfawrogi'r ffaith bod y Strategaeth yn cynnig fframwaith bras neu gyfeiriad ar gyfer datblygiad parhaus y Gwasanaeth Ieuenctid yng Nghymru, gan annog awdurdodau lleol i adolygu ansawdd a strwythur y ddarpariaeth leol.

**Amcan y gwerthusiad:** Asesu llwyddiant y strategaeth wrth bennu nodau strategol realistig i holl sefydliadau partner y Gwasanaeth Ieuenctid eu cyflawni o fewn amserlen briodol.

Fel y nodir uchod, ystyrir y bu'r Strategaeth yn effeithiol wrth ddarparu fframwaith strategol eang ar gyfer datblygiad parhaus y Gwasanaeth Ieuenctid. Mae'r weledigaeth strategol a nodir yn *Pobl ifanc, gwaith ieuenctid, Gwasanaeth Ieuenctid,* yn rhywbeth yr ymddengys bod sefydliadau ledled y sector statudol a gwirfoddol wedi'i mabwysiadu, ar sail y farn a fynegir gan gyfweleion a'r rheiny a ymatebodd i'r arolwg. Ochr yn ochr â nodau strategol eang y Strategaeth, rhaid ystyried y camau penodol y mae'n eu cynnwys. Nod y Strategaeth oedd:

> *Creu cynllun gweithredu i alluogi gwaith ieuenctid i wneud cyfraniad effeithiol i Ymestyn Hawliau a dyheadau polisi ehangach Llywodraeth Cynulliad Cymru.*

Mae gwahanol elfennau cynllun gweithredu'r Strategaeth wedi'u hystyried yn eu tro drwy gydol adroddiad y gwerthusiad hwn. Fodd bynnag, bu anawsterau wrth asesu effaith llawer o weithgareddau, y mae rhai ohonynt wedi'u beirniadu gan reolwyr ac ymarferwyr y gwasanaeth ieuenctid am fod yn amhendant ac yn ymwneud â 'phroses' yn hytrach na chanlyniadau. Er enghraifft, mae nifer o'r camau gweithredu yn herio sefydliadau i 'chwarae rôl arweiniol wrth…'; 'cefnogi'r gwaith o weithredu…' neu 'cyflwyno prosesau ar gyfer gweithredu ymagwedd gydweithredol at… '. Cafodd y canfyddiad hwn ei gryfhau gan y disgrifiad o'r Strategaeth fel "canllawiau" "heb fod angen ymateb".

O ganlyniad, roedd y partneriaid ar y cyfan o'r farn yw nad yw'r Strategaeth wedi cael effaith sylweddol ar ddarpariaeth y gwasanaeth ieuenctid. Ystyriwyd bod sawl sbardun arall – megis blaenoriaethau lleol neu saith nod craidd Llywodraeth Cynulliad Cymru[11] ar gyfer plant a phobl ifanc – yn chwarae rôl gyfartal wrth lywio'r newidiadau i'r sector, er eu bod, o bosibl, yn rhannu gweledigaeth debyg iawn. Mae angen felly i gamau gweithredu'r Strategaeth newydd gael eu diffinio'n glir ac mae angen iddynt fod yn 'SMART' – i grynhoi, dylai'r Strategaeth gael ei llywio gan safonau cenedlaethol clir sy'n sbarduno gweithgarwch ac yn mynnu bod partneriaid yn cyrraedd meincnodau penodol.

**Amcan y gwerthusiad:** Nodi unrhyw rwystrau neu gyfyngiadau sydd wedi amharu ar gynnydd y Strategaeth hyd yma.

Roedd tystiolaeth y gwerthusiad yn dangos nifer fach o rwystrau a allai fod wedi amharu ar gynnydd y Strategaeth yn ystod y cyfnod rhwng 2007 – 2010. Er bod dadansoddiad wedi dangos bod lefel yr adnoddau sydd ar gael i'r Gwasanaeth Ieuenctid wedi cynyddu ers cyhoeddi'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer y Gwasanaeth Ieuenctid, erys nifer o bryderon, gan gynnwys y gwahaniaeth sylweddol mewn ariannu ar draws y gwahanol awdurdodau lleol. Er bod y cyfanswm a gaiff ei wario ar bobl ifanc rhwng 11-25 oed wedi cynyddu'n sylweddol, mae gwahaniaeth sylweddol hefyd yn lefel yr ariannu rhwng yr awdurdodau sy'n gwario fwyaf a'r awdurdodau sy'n gwario lleiaf. Mae hyn yn

1 [1] Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi trosi Confesniwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn saith nod allweddol, sef:

1. Dylai pob plentyn gael dechrau'n deg mewn bywyd a'r sail orau bosibl ar gyfer eu twf a'u datblygiad yn y dyfodol.
2. Dylai pob plentyn a pherson ifanc gael mynediad at ystod gynhwysfawr o gyfleoedd addysg, hyfforddiant a sgiliau, gan gynnwys meithrin sgiliau cymdeithasol a phersonol hanfodol.
3. Dylai pob plentyn fwynhau'r iechyd corfforol a meddyliol, cymdeithasol ac emosiynol gorau, gan gynnwys peidio â chael ei gam-drin, ei erlid a'i ecsploetio.
4. Dylai pob plentyn gael mynediad at weithgareddau chwarae, hamdden, chwraeon a diwylliannol.
5. Dylid gwrando ar blant a phobl ifanc eu trin â pharch a chydnadnabod ei hil a'u hunaniaeth ddiwylliannol.
6. Dylai plant a phobl ifanc gael cartref a chymuned ddiogel sy'n cefnogi lles corfforol ac emosiynol
7. Ni ddylai unrhyw berson ifanc fod dan anfantais o achos tlodi.

debygol o amharu ar gynnyddu cyfle cyfartal o ran ystod ac ansawdd y ddarpariaeth i bobl ifanc. Mae cyllidebu'r Gwasanaeth Ieuenctid yn bryder parhaus ar gyfer y rhan fwyaf o'r rheiny a gafodd eu cyfweld, ac roedd consensws ymysg yr ymgyngoreion na ellir cyflawni llawer o'r camau strategol oni bai eu bod yn cael eu cefnogi gan adnoddau yn y dyfodol.

Mae amser yn rhwystr i lawer o sefydliadau'r sector gwirfoddol: cyfyng yw'r capasiti i gadw i fyny â'r datblygiadau diweddaraf ar lefel polisi cenedlaethol ac i ymgysylltu â rhwydweithiau lleol. Gall hyn rwystro sefydliadau'r sector gwirfoddol rhag ymgysylltu'n llawn a chyfrannu at y blaenoriaethau a nodir yn y Strategaeth genedlaethol.

Ceir llawer o enghreifftiau cadarnhaol o bobl ifanc yn cael chwarae rhan lawn yn y broses o wneud penderfyniadau, a chyflwynwyd y rhain fel tystiolaeth yn ystod y gwerthusiad. Fodd bynnag, ni chafwyd y lefel uchel hon o gyfranogiad ar draws yr holl sefydliadau, nac ar draws yr holl weithgareddau o fewn sefydliadau unigol. Roedd rhai pobl ifanc wedi mynegi rhwystredigaeth o ran cyfranogi, er bod y rhain yn dueddol o fod yn gysylltiedig â materion erial, megis cyllid neu drafnidiaeth yn hytrach na diffyg cyfranogiad ynddo'i hun.

**Amcan y gwerthusiad:** Casglu safbwyntiau ar y ffyrdd gorau o gefnogi ymarferwyr i gofnodi tystiolaeth o effaith gweithgareddau'r strategaeth ar y buddiolwyr, a hynny o ran mynd ati i gymryd rhan, datblygu sgiliau a chymhwysedd emosiynol.

Yn ôl y dystiolaeth a gasglwyd gan ymarferwyr yn ystod ymchwil y gwerthusiad, mae ystod o offer eisoes yn cael eu defnyddio i gofnodi a dangos effaith y gweithgareddau sy'n ymwneud â'r Strategaeth. Mae'r ymarferwyr yn ystyried bod cofnodi tystiolaeth a chefnogi darpariaeth ansawdd uchel yn gysylltiedig â'r gwaith o weithredu a chymhwyso safonau cenedlaethol ar gyfer gwaith ieuenctid. Bydd gweithredu systemau casglu tystiolaeth yn cefnogi'r broses o gofnodi effaith a chyflwyno'r safonau.

Er y bu rhywfaint o oedi wrth weithredu systemau casglu tystiolaeth, erbyn diwedd cyfnod y Strategaeth, roedd mwyafrif helaeth yr awdurdodau lleol yn defnyddio (neu'n dysgu sut i ddefnyddio) systemau rheoli gwybodaeth. Bydd y systemau hyn yn cyfrannu at gynllunio gwell a meincnodi perfformiad a darpariaeth ymhellach.

**Amcan y gwerthusiad:** Argymell ffyrdd posibl o ddatblygu'r Strategaeth yn y dyfodol a / neu'r prosesau a'r gweithgareddau sy'n rhan ohoni.

Mae'r argymhellion sy'n deillio o'r gwerthusiad wedi'u rhestru isod.

## Argymhellion

43. Ar sail y canfyddiadau hyn, mae'r adroddiad yn gwneud cyfres o ddeunaw o argymhellion wedi'u targedu. Caiff y rhain eu nodi isod.

*Ariannu a chynllunio strategol*

Llywodraeth Cynulliad Cymru

1. Dylai'r Strategaeth Genedlaethol newydd ar gyfer y Gwasanaeth Ieuenctid yng Nghymru gynnwys, neu gyd-fynd â, safonau cenedlaethol ar gyfer gwaith ieuenctid. Bydd y safonau hyn yn ffurfioli'r gofynion ar gyfer awdurdodau lleol o ran ansawdd ac ystod y ddarpariaeth ar gyfer pobl ifanc.
2. Yn sgil argymhelliad 1, mae'n hanfodol bod lefelau cyfredol o ariannu'r Gwasanaeth Ieuenctid yn cael eu cynnal o leiaf, er gwaetha'r hinsawdd economaidd gyfredol.

LlCC ac Awdurdodau Lleol

3. Er mwyn hyrwyddo darpariaeth a chyfle cyfartal ar gyfer pobl ifanc, mae angen lleihau'r amrywiaethau lleol mewn gwariant y pen ar gyfer pobl ifanc 11-25 oed, fel a nodir ym mharagraffau 2.6 a 2.7 yr adroddiad hwn. Dylai

CCAC a’r Grwp Prif Swyddogion Ieuenctid (PYOG) flaenoriaethu hyn ac adrodd ar y cynnydd i Lywodraeth Cynulliad Cymru.

4. Dylai strategaethau Gwasanaeth Ieuenctid Lleol adlewyrchu’r weledigaeth a nodir yn y Strategaeth Genedlaethol ddiwygiedig, ac ar yr un pryd, gydnabod yr amryw fethodoleg gwaith ieuenctid y gellir eu cymwys i ymateb i anghenion ac amgylchiadau lleol.

*Strwythur integredig*

<u>Llywodraeth Cynulliad Cymru</u>

5. Dylai’r Strategaeth Genedlaethol ddiwygiedig geisio atgyfnerthu ymhellach y strwythurau rhanbarthol a gafodd eu ffurfioli yn ystod oes y Strategaeth gyfredo, a hynny drwy:
    a. Sicrhau bod cylch gorchwyl yn ei le er mwyn llywio gweithgareddau’r partneriaethau rhanbarthol, y grwpiau PYO rhanbarthol a grwpiau’r sector gwirfoddol;
    b. Cyhoeddi canllawiau ar gydweithio ar lefel ranbarthol, gan gynnwys ymagwedd gydweithredol at ddarparu gwasanaeth a datblygu’r gweithlu.

<u>PYOG a phartneriaethau sector gwirfoddol</u>

6. Mae gan grwpiau rhanbarthol a strwythurau cynllunio rôl hanfodol i’w chwarae wrth sicrhau bod y Strategaeth Genedlaethol yn taro tant gydag ymarferwyr, ac yn berthnasol iddynt. Gyda hyn mewn cof:
    a. Dylai grwpiau PYO rhanbarthol sicrhau bod arferion da wrth gyflawni’r amcanion strategol yn treiddio i lawr i weithwyr ieuenctid a sefydliadau partner.
    b. Dylai CWVYS a phartneriaethau sector gwirfoddol rhanbarthol ddatblygu strategaethau ar gyfer ymgysylltu â sefydliadau llai yn y sector gwirfoddol, gan sicrhau eu bod yn deall y cyfraniad y gallant ei wneud i’r gwaith o ddarparu’r Strategaeth Genedlaethol ddiwygiedig.

*Datblygu'r gweithlu*

Llywodraeth Cynulliad Cymru / PYOG

7. Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru, gan weithio â'r PYOG, gyfathrebu'n well â'r swyddogion sy'n gyfrifol am y gwaith o gydgysylltu hyfforddiant a datblygu'r gweithlu wrth wireddu Cynllun Gweithredu Datblygu'r Gweithlu a'r maniffesto ar gyfer y gweithlu gwaith ieuenctid yng Nghymru.

Awdurdodau lleol a phartneriaethau'r sector gwirfoddol

8. Dylai awdurdodau lleol anelu i sicrhau bod o leiaf 90% o'r gweithwyr ieuenctid yn y Gwasanaeth Ieuenctid a gynhelir yn gymwys hyd at gymhwyster lefel JNC Proffesiynol.

9. Wrth gydgysylltu'r gwaith o wireddu'r camau yn y Cynllun Datblygu'r Gweithlu ar gyfer y Gwasanaeth Ieuenctid yng Nghymru, dylai partneriaethau sector gwirfoddol rhanbarthol weithio i gynyddu cyfran y gweithwyr ieuenctid yn y sector gwirfoddol sydd wedi dilyn hyfforddiant a arnodir gan y Pwyllgor Safonau Addysg a Hyfforddiant neu sydd wedi'i gynnwys yn y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol.

*Safonau cenedlaethol*

Llywodraeth Cynulliad Cymru

10. Dylai'r safonau cenedlaethol gynnwys targedau 'SMART', gyda chanllawiau clir ar sut y maent yn berthnasol i'r sector gwirfoddol a'r sector a gynhelir.

Llywodraeth Cynulliad Cymru ac CCAC

11. Dylai CCAC gytuno ar y safonau cenedlaethol, gan sicrhau ymrwymiad ar lefel strategol i gyflawni'r targedau a'r dangosyddion perfformiad allweddol.

*Ymgysylltu*

PYOG

12. Dylai grwpiau PYO rhanbarthol sicrhau bod arferion effeithiol wrth ymgysylltu â phobl ifanc yn cael eu rhannu a'u lledaenu ar draws awdurdodau lleol a'r

sector gwirfoddol. Wrth wneud hynny, dylent gyfeirio at yr arferion da a nodir yn yr adroddiad hwn o ran cynnwys pobl ifanc yn y broses o wneud penderfyniadau.

CLILC

13. Dylai'r broses o ledaenu arferion da wrth ymgysylltu â phobl ifanc er mwyn helpu i lywio'r gwasanaethau a ddarperir ymestyn hefyd y tu hwnt i'r Gwasanaeth Ieuenctid. Gallai meysydd gwasanaeth eraill ddysgu o'r ffordd y mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yn ymgysylltu â phobl ifanc er mwyn dylanwadu ar ddarpariaeth a'i llywio. Dylai CLILC ystyried pa wersi y gellir eu dysgu ar draws adrannau awdurdodau lleol, er mwyn sicrhau bod modd i bobl ifanc gael mewnbwn i feysydd gwasanaethau eraill sy'n effeithio arnynt, gan gynnwys iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, diwylliant, hamdden ac addysg.

*Hyfforddiant Gwaith Ieuenctid mewn Addysg Uwch*

Llywodraeth Cynulliad Cymru

14. Fel y nodir yn y Cynllun Datblygu'r Gweithlu, mae'n hanfodol bod SAU yn cyflwyno rhaglenni hyfforddiant sy'n adlewyrchu'r diben, yr egwyddorion, y gwerthoedd a'r canlyniadau a nodir yn y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer y Gwasanaeth Ieuenctid. Dylai'r Strategaeth ddiwygiedig gyfleu'n glir i'r SAU pa sgiliau a chymwyseddau sydd eu hangen ar weithwyr ieuenctid er mwyn sicrhau bod y Strategaeth a'i gweledigaeth yn cael ei gweithredu'n llwyddiannus.

SAU ac awdurdodau lleol

15. Dylai'r Gwasanaeth Ieuenctid fynd i'r afael â'r argymhellion sy'n ymwneud â lleoliadau gwaith yn adroddiad diweddar Estyn[2] hyfforddiant gweithwyr ieuenctid fel mater o flaenoriaeth. Yn arbennig, mae angen:

Llunio canllawiau cliriach i oruchwylwyr lleoliadau gwaith am eu rôl addysgiadol mewn cyrsiau, er mwyn iddynt wybod yn iawn beth yw eu

[2] Estyn, 2010. *Arolwg o hyfforddiant cymwysterau proffesiynol ar gyfer gweithwyr ieuenctid yng Nghymru.* Caerdydd: Estyn

cyfrifoldebau o ran datblygu sgiliau proffesiynol, gwybodaeth a dealltwriaeth hyfforddeion.

Gwella cyfleoedd hyfforddi i oruchwylwyr lleoliadau gwaith, er mwyn sicrhau y gallant gyflawni eu cyfrifoldebau o ran hyfforddiant ac asesu rolau yn effeithiol.

<u>SAU a PYOG</u>

16. Dylid gwella'r cysylltiadau strategol rhwng Sefydliadau Addysg Uwch (SAU) a PYOG. Dylai SAU sicrhau bod cynrychiolwyr Grwpiau PYO rhanbarthol yn rhan o'r broses o ddatblygu rhaglenni neu'n eistedd ar baneli adolygu, er mwyn sicrhau bod y cyrsiau yn adlewyrchu'n well anghenion Gwasanaethau Ieuenctid awdurdodau lleol.

*Darpariaeth Iaith Gymraeg*

<u>Awdurdodau lleol</u>

17. Mae tystiolaeth a gyflwynwyd fel rhan o'r gwerthusiad yn awgrymu y bu cynnydd yn nifer y gweithgareddau dwyieithog a chyfrwng Cymraeg i bobl ifanc. Fodd bynnag, ymddengys bod y rhain yn bennaf mewn ardaloedd penodol. Dylai'r Gwasanaeth Ieuenctid asesu lefel y galw am ddarpariaeth iaith Gymraeg a chynllunio'r ddarpariaeth mewn ymateb i'r angen a welir.

*Systemau Rheoli Gwybodaeth*

<u>Awdurdodau lleol</u>

18. Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod ganddynt systemau rheoli gwybodaeth cadarn yn eu lle er mwyn casglu data am faint o bobl sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau gwaith ieuenctid, yn ogystal â data am ganlyniadau a chynnydd. Lle caiff hyn ei wneud yn effeithiol, mae awdurdodau lleol yn defnyddio'r data hwn i gynllunio a chydgysylltu'r ddarpariaeth yn well er mwyn sicrhau bod anghenion pobl ifanc yn cael eu diwallu.